



Ministry of
JUSTICE

Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder: Craffu ôl- ddeddfwriaethol ar Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Tachwedd 2012



Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder: Craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol
dros Gyfiawnder Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Tachwedd 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn Alex Avlonitis, Information and Devolution, Ministry of Justice, SW1H 9AJ. Ffôn 020 3334 3028. E-bost Alexandra.Avlonitis@justice.gsi.gov.uk.

Mae modd llwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101850520

Argraffwyd yn y DU ar gyfer Y Llyfrfa Cyf ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
ID 2526743 11/12

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
1. Amcanion y Ddeddf	4
2. Costau a Ffioedd	8
3. Oedi (Adran 10) a Gorfodi (Adran 77)	13
4. Ceisiadau Blinderus (Adran 14) a Mathau o Bobl sy'n gwneud Cais	16
5. Ffurio Polisi, Lleoedd Diogel a'r Effaith Iasoer	17
6. Yr Eithriad Cyn-Cyhoeddi (Adran 22) a'r Eithriad Iechyd a Diogelwch (Adran 38)	21
7. Yr Eithriad Masnachol (Adran 43) a Defnyddio Rhyddid Gwybodaeth gyda Gwasanaethau Cyhoeddus ar Gontract Allanol	23

**Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder:
Crffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor Cyfiawnder o Sesiwn 2012-13 am ei graffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Cafodd adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2012.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Cyfiawnder am ddadansoddi'r materion hyn ac mae wedi ystyried ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn ofalus.

1. Amcanion y Ddeddf

Rydym yn cytuno â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder bod y Ddeddf wedi cyfrannu at ddiwylliant o fod yn fwy agored ar draws awdurdodau cyhoeddus, yn enwedig ar lefel Llywodraeth ganolog sydd wedi bod yn gyfrinachol dros ben yn y gorffennol. Rydym yn croesawu ymdrechion nifer o swyddogion cyhoeddus o ran gweithredu'r Ddeddf a hefyd am weithio yn ysbryd rhyddid gwybodaeth i fod yn fwy agored. Fodd bynnag mae ein tystiolaeth yn dangos bod cryfder y diwylliant newydd o fod yn agored yn amrywio ac yn dibynnu ar y math o sefydliad ac agwedd yr awdurdod cyhoeddus unigol at ryddid gwybodaeth. (Paragraff 17)

1. Mae'r Llywodraeth yn croesawu bod y Pwyllgor yn cydnabod cyfraniad y Ddeddf at ddiwylliant o fod yn fwy agored a'r rhan sy'n cael ei chwarae gan swyddogion i helpu i wreiddio rhyddid gwybodaeth ar draws awdurdodau cyhoeddus.
2. Mae'r ymchwil diweddaraf gan gyrrff cyhoeddus sy'n cael eu monitro'n dangos bod nifer y ceisiadau i Lywodraeth Ganolog yn dal i godi; yn Ch2 2012 cafodd Llywodraeth Ganolog 11,634 o geisiadau, a oedd 5% yn uwch na Ch2 2011.
3. Yn yr ymateb hwn mae'r Llywodraeth yn cynnig mesurau a fydd, mewn diwylliant parhaus o fod yn agored, yn hybu defnyddio'r Ddeddf yn fwy cyson ar draws y sector cyhoeddus ar yr un pryd â sicrhau bod y drefn rhyddid gwybodaeth yn cynnig gwerth am arian.

While proactive transparency clearly has the potential to reduce the Er ei bod yn amlwg y gall tryloywder rhagweithiol leihau'r baich o ymateb i geisiadau am wybodaeth ar awdurdodau cyhoeddus sydd o dan bwysau, ni all cyhoeddi data'n rhagweithiol gymryd lle hawl i gael gafael ar ddata oherwydd mae'n amhosibl i gyrrff cyhoeddus ragweld yr wybodaeth y bydd gofyn amdani. Serch hynny, mae cyhoeddi rhagweithiol yn bwysig i gyflawni amcanion sylfaenol y Ddeddf sef bod yn agored ac yn dryloyw. (Paragraff 31)

Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod y drefn rhyddid gwybodaeth a'r agenda tryloywder yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Rhaid pwysu a mesur mentrau unigol mewn adrannau gwahanol cyn gweithredu yng ngoleuni polisi sydd eisoes yn bodoli i weld a ydynt yn cynrychioli'r dull gweithredu mwyaf effeithiol. Yn yr un modd, dylid hefyd asesu mentrau sydd eisoes yn bodoli ar ôl cyfnod er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig gwerth am arian ac nad ydynt wedi arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd. (Paragraff 32)

4. Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag asesiad y Pwyllgor Dethol o bwysigrwydd datgelu gwybodaeth yn rhagweithiol. Er nad yw'n cymryd lle trefn ddatgelu

adweithiol, mae'n cytuno bod Agenda Tryloywder y Llywodraeth yn elfen bwysig o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy tryloyw.

5. Mae'r Llywodraeth yn credu bod y drefn rhyddid gwybodaeth a'r agenda tryloywder yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Dyma pam mae'r Llywodraeth yn defnyddio'r Papur Gwyn Data Agored 'Unleashing the Potential' (Mehefin 2012), i ddatgan sut gall yr agenda tryloywder helpu i sicrhau rhagor o fynediad ac aildefnyddio data craidd (is-set o wybodaeth) sydd gan y llywodraeth. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio i sicrhau bod yr wybodaeth mae'n ei rhyddhau yn fwy defnyddiol. Bydd y Ddeddf Diogelu Rhyddidau'n darparu y dylai'r setiau data sy'n cael eu datgelu mewn ymatebion i geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth gael eu rhyddhau mewn fformat mae modd ei aildefnyddio ynghyd â thrwydded benodol, pan fydd hynny'n ymarferol. Bydd hyn yn sicrhau bod y datgelu'n golygu mwy na dim ond dosbarthu ond ei fod yn caniatáu defnyddio data'n hwylus.
6. Mae gwybodaeth sy'n cael ei rhyddhau fel mater o drefn yn cynnwys gwybodaeth ariannol, manylion contractau a thendro, dangosyddion perfformiad a graddfeydd cyflog. Mae awdurdodau lleol bellach yn cyhoeddi gwariant sydd dros £500 fel mater o drefn yn ogystal â manylion tendrau a chontractau newydd. Rhaid i adrannau Llywodraeth Ganolog gyhoeddi penderfyniadau gwariant dros £25,000 ond mae nifer wedi dewis cyhoeddi eu holl wariant dros £500; mae'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol hefyd yn cyhoeddi manylion gwariant ar Gymorth Rhyngwladol. Caiff contractau a dogfennau tendr Llywodraeth Ganolog sydd dros £10,000 eu cyhoeddi, gan gynnwys dangosyddion perfformiad, cymalau terfynu a mesurau cosbi. Caiff enwau, graddfeydd, teitlau swyddi a chyfraddau tâl blynyddol y rhan fwyaf o Uwch Weision Sifil eu cyhoeddi fel rhan o organogram manwl ar gyfer holl sefydliadau'r Llywodraeth. Ar ben hynny bydd rhagor o fanylion am yr Uwch Weision Sifil hynny sy'n ennill dros £150,000 nawr yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn, ynghyd â manylion taliadau ar wahân a wneir i Uwch Weision Sifil. Cyhoeddwyd manylion treth penodiadau cyhoeddus yn 2012 hefyd. Yn yr un modd, cyhoeddir dangosyddion perfformiad gwasanaethau cyhoeddus, fel ystadegau troseddau ar lefel fesul stryd a data ysbytai ar gyfraddau heintiau MRSA a C-difficile.
7. Mae Strategaethau Data Agored Adrannol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Papur Gwyn, yn enghraifft arall o'r cysylltiadau agos rhwng rhyddid gwybodaeth a bod yn dryloyw. Mae'r strategaethau'n nodi pa ddata newydd bydd adrannau'n ei gyhoeddi a phryd dros y ddwy flynedd nesaf, gan ychwanegu at gynlluniau cyhoeddi sydd eisoes yn bodoli. Wrth i adrannau symud ymlaen ar eu hymrwymadau, bydd y Llywodraeth yn adrodd yn rheolaidd i'r Senedd.
8. Mae llwyddiant parhaus Bwrdd Tryloywder y Sector Cyhoeddus a'r Paneli Sector Tryloywder amrywiol wedi bod yn ffordd effeithiol o newid ymddygiad adrannau i fod yn fwy uchelgeisiol yng nghyswllt gweithredu'r agenda tryloywder. Drwy greu grwpiau bach, hyblyg sy'n cynnwys defnyddwyr data allanol a phartion eraill sydd â diddordeb i gefnogi a herio

adrannau, mae faint o ddata sy'n cael ei ryddhau'n rheolaidd mewn fformat agored ac mae modd ei ailddeddfyddio wedi cynyddu, ochr yn ochr â'r ymrwymadau sydd wedi'u hamlinellu yn y Strategaethau Data Agored, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'r Llywodraeth yn parhau i edrych ar greu rhagor o grwpiau sector penodol, yn ôl yr angen, i helpu i feithrin rhagor o gyhoeddi data. Er hynny, mae'r gymuned drwyddi draw yn parhau i alw am ragor o ddata agored, ceir tystiolaeth o hyn drwy'r ceisiadau sydd wedi dod i law hyd yn hyn drwy 'Ffurflen Gais' Data Grŵp Defnyddwyr Data Agored. Roedd y Grŵp Defnyddwyr Data Agored wedi creu'r broses hon i gynghori eu hunain yn well ac, maes o law, cynghori'r Llywodraeth, ynghylch pa setiau data allweddol mae busnesau a'r cyhoedd yn gofyn amdanynt ar hyn o bryd, sy'n cael eu cadw gan gyrrff sector cyhoeddus ac maent yn credu sydd â manteision masnachol a chymdeithasol ac y gallent gyfrannu at dwf economaidd.

Yn gyffredinol roedd ein tystiolaeth ar effaith y Ddeddf ar ymddiriedaeth yn cytuno â chanfyddiadau'r Memorandwm. Mae a fydd y Ddeddf yn cyfrannu at gynyddu hyder y cyhoedd yn y Llywodraeth, y Senedd a chyrrff eraill yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o wybodaeth a gyhoeddir ar ôl cais. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael gwybodaeth a gyhoeddir o dan y Ddeddf drwy'r cyfryngau. Mae tystiolaeth o afreoleidd-dra, diffygion a gwallau bob amser yn fwy tebygol o gyrraedd y newyddion na thystiolaeth bod popeth yn cael ei wneud yn gywir a bod yr awdurdod cyhoeddus yn gweithio'n dda. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r disgwyliad o gynnydd sylweddol yn ymddiriedaeth y cyhoedd ar ôl cyflwyno'r Ddeddf bob amser yn mynd i fod yn afrealistig. (Paragraff 37)

Yn anochel bydd rhyddhau rhagor o ddata'n arwain at fwy o feirniadaeth o unigolion a chyrrff cyhoeddus, a allai fod yn annheg neu'n rhannol weithiau. Fodd bynnag, yn ein barn ni er bod hyn yn anffodus, mae'n bris gwerth ei dalu er mwyn cael manteision bod yn fwy agored yn ein democratiaeth. (Paragraff 38)

9. Mae'r Llywodraeth yn cytuno nad oedd gwella'r ymddiriedaeth mewn Llywodraeth yn amcan hollol realistig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Serch hynny, mae rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig yn awgrymu bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi arwain at fwy o ymddiriedaeth gyhoeddus mewn Llywodraeth. Mae ymchwil o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn dangos cynnydd sylweddol yng nghyfran y bobl sy'n cytuno bod 'Gallu cael gafael ar wybodaeth sy'n cael ei chadw gan awdurdodau cyhoeddus yn cynyddu eich hyder ynddynt' a 'Mae gallu cael gafael ar yr wybodaeth sy'n cael ei chadw gan awdurdodau cyhoeddus yn cynyddu eich ymddiriedaeth ynddynt'. Yn 2011, roedd 76% a 71% y naill a'r llall yn cytuno gan roi cynnydd cyson o'r 51% a oedd yn cytuno â'r ddau ddatganiad yn 2004. Er gwaethaf hyn, mae'r Llywodraeth yn cytuno nad yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ymddiriedaeth y cyhoedd mewn Llywodraeth.
10. Er bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gallu arwain at feirniadaeth o awdurdodau cyhoeddus, mae hyn yn tueddu i gynrychioli lleiafrif o achosion. Er gwaethaf unrhyw sylw negyddol i awdurdodau cyhoeddus

sy'n deillio o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod awdurdodau cyhoeddus yn fwy agored, tryloyw ac atebol oherwydd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a bod hynny wedi arwain at welliannau sylweddol i'n democratiaeth.

Ar ôl cael rhywfaint o dystiolaeth am effaith y Ddeddf ar fwy o gyfranogiad cyhoeddus mewn penderfyniadau, ni fyddem yn ceisio anghytuno â chanfyddiadau'r Uned Cyfansoddiad nad yw'r amcan hwn wedi cael ei gyflawni, o leiaf mewn Llywodraeth ganolog. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r awgrym, er nad yw'r Ddeddf efallai wedi cael effaith uniongyrchol ar gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn penderfyniadau yn y GIG, mae wedi helpu i symud at ddiwylliant o ymgysylltiad gwell gan y cyhoedd. (Paragraff 43)

11. Nid yw'r Llywodraeth yn anghytuno â chasgliad y Pwyllgor a'r Uned Cyfansoddiad. Er gwaethaf y posibilrwydd nad yw'r amcan olaf hwn efallai wedi cael ei gyflawni, mae'r Llywodraeth yn dal i gredu bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi llwyddo i gyflawni ei nodau craidd sef bod yn fwy agored, tryloyw ac atebol.

2. Costau a Ffioedd

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gwella ein democratiaeth yn sylweddol. Mae'n rhoi'r hawl i'r cyhoedd, y cyfryngau a phartion eraill gael gafael ar wybodaeth am y ffordd y caiff sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr eu llywodraethu, a'r ffordd y caiff arian trethdalwyr ei wario. Mae Llywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus yn gallu hybu mwy o dryloywder ond, heb geisiadau rhyddid gwybodaeth, bydd y penderfyniadau ynghylch beth i'w gyhoeddi bob amser yn nwylo'r rheini sydd â phŵer. Mae costau ynghlwm wrth ryddid gwybodaeth, ond mae hefyd yn creu arbedion sy'n deillio o ddatgelu achosion o ddefnyddio arian cyhoeddus yn amhriodol neu, yn bwysicach, ofn datgelu o'r fath. (Paragraff 53)

12. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fanteision yn ogystal â chostau, ac mae wedi ymrwymo i ymestyn y Ddeddf i wella tryloywder. Serch hynny, mae'r sefyllfa economaidd a'r pwysau cynyddol ar gyllidebau awdurdodau cyhoeddus yn golygu ei bod yn rhaid i'r Llywodraeth hefyd ystyried y ffordd orau o leihau beichiau lle gall wneud hynny heb danseilio tryloywder.

Nid ydym yn credu ei bod yn ymarferol datblygu methodoleg lle gellid cynnwys gweithgareddau goddrychol fel darllen ac amser ystyried yn y cyfyngiad amser 18 awr. Mae gweithgareddau o'r fath yn dibynnu gormod ar alluoedd y swyddog rhyddid gwybodaeth unigol, gan gyflwyno elfen o anghysondeb i'r broses sy'n tanseilio amcan sylfaenol y Ddeddf, sef bod gan bawb fynediad cyfartal i gael gafael ar wybodaeth. (Paragraff 60)

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf yn gallu bod yn gost sylweddol i gorff cyhoeddus. Efallai fod cyfiawnhad dros ostyngiad bach sylfaenol yn y cyfyngiad 18 awr er mwyn lliniaru'r pwysau ar awdurdodau sydd o dan bwysau, yn enwedig gan fod nifer y ceisiadau yn cynyddu. Byddem yn awgrymu rhywbeth fel dwy awr, gan fynd â'r terfyn amser i 16 awr yn hytrach nag 18, ond rydym yn disgwyl y byddai ar y Llywodraeth eisiau gwneud rhagor o waith i weld sut y byddai hyn yn effeithio ar nifer y ceisiadau a fyddai'n cael eu gwrthod o dan adran 12, a gwanhau'r hawl i gael gafael ar wybodaeth. (Paragraff 61)

13. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod Adran 12 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi cael ei dylunio i eithrio ystyried y ceisiadau rhyddid gwybodaeth hynny a fyddai'n rhoi gormod o faich ar awdurdodau cyhoeddus. Mae'n dal yn ddarpariaeth bwysig. Mae'r Llywodraeth yn glir y dylai ymdrechion i ysgafnhau beichiau ganolbwyntio ar y rheini sy'n rhoi beichiau anghymesur ar awdurdodau cyhoeddus drwy ddefnyddio'r Ddeddf mewn ffordd y gellid ei hystyried fel un 'ddiwydiannol'.

14. Fodd bynnag, mae'n glir bod y ddarpariaeth o dan adran 12 yn cael ei defnyddio'n anghyson ar hyn o bryd. Yn aml ni ellir gwrthod gwybodaeth sy'n swmpus ond sy'n hawdd dod o hyd iddi o dan adran 12 er bod y baich cyffredinol ar yr awdurdod cyhoeddus o ateb y cais hwn yn uwch o lawer na £450 neu £600. Gall gymryd llawer o amser i awdurdodau cyhoeddus archwilio ac ystyried gwybodaeth a phenderfynu a yw'n addas i'w rhyddhau'n gyhoeddus. Mae'n aml yn cymryd llawer mwy o amser i awdurdod cyhoeddus na phenderfynu a yw'n dal yr wybodaeth neu ddod i hyd iddi, ei hadfer neu ei hechdynnu. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylai fod yn bosibl ystyried rhywfaint o'r amser, neu'r cyfan, sy'n cael ei dreulio ar bwys o mesur a golygu wrth gyfrifo a aethpwyd dros y terfyn costau.
15. Nid yw'r Llywodraeth yn rhannu asesiad y Pwyllgor ei bod yn anymarferol datblygu methodoleg wrthrychol a theg ar gyfer cyfrifo'r terfyn cost sy'n cynnwys yr amser ychwanegol a dreulir yn delio â gwybodaeth i ymateb i gais. O'r herwydd, mae'r Llywodraeth yn bwriadu edrych ar ddewisiadau ar gyfer darparu bod modd cynnwys yr amser a gymerir i ystyried a golygu Er mai ar nifer fach o geisiadau rhyddid gwybodaeth y byddai'r newid hwn yn effeithio, byddai'r gostyngiad cymesur yn y baich yn fwy o lawer. Mae tystiolaeth o'r astudiaeth gan Ipsos MORI a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn awgrymu bod cyfran y ceisiadau y mae'n rhaid eu hateb o dan y rheoliadau presennol, ond na fyddai'n rhaid eu hateb petai'r holl weithgareddau'n cael eu cynnwys yn y terfyn cost, yn gymharol isel sef oddeutu 4% o'r ceisiadau i lywodraeth ganolog a 10% ar gyfer awdurdodau cyhoeddus eraill. Roedd ymchwil Ipsos Mori hefyd wedi dod i'r casgliad er bod dim ond 1% o geisiadau i lywodraeth ganolog yn costio o leiaf £1,000 i'w hateb, mae'r ceisiadau hyn yn cynrychioli 5% o gyfanswm y costau.
16. Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno y byddai cynnwys y mathau hyn o gostau yn golygu'n anochel y byddai defnyddio'r terfyn costau'n fwy gwrthrychol. Ar hyn o bryd mae'r terfyn cost yn dibynnu i raddau helaeth ar ewyllys da'r awdurdodau cyhoeddus o dan sylw, a gall fod yn benderfyniad gwrthrychol y sawl sy'n ymdrin â'r cais. Pan fydd y terfyn cost yn cael ei gyfrifo'n amhriodol neu'n anghywir, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn sefyllfa i gamu i mewn. Felly, nid yw'r Llywodraeth yn derbyn y byddai ymestyn y gweithgareddau mae modd eu cynnwys i gyrraedd y terfyn cost o reidrwydd yn galw am fwy o wrthrychedd na faint a geir ar hyn o bryd. Mae hefyd yn credu bod modd mynd i'r afael â'r gwrthwynebiad hwn drwy gyhoeddi cyfarwyddyd cynhwysfawr gyda'r nod o sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau cyhoeddus. Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar y newid hwn ac yn ceisio datblygu dull cyfrifo sy'n asesu'r amser a dreulir ar weithgareddau o'r fath mewn ffordd unffurf ar draws pob awdurdod cyhoeddus.
17. Bydd y Llywodraeth hefyd yn edrych ar ddewisiadau eraill i ysgafnhau'r baich ar awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â'r terfyn cost. Bydd y rhain yn cynnwys posibilrwydd lleihau'r terfynau cyffredinol presennol o £600 a £450. Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno y byddai lleihau dwy awr ar y terfyn cost yn ffordd briodol o ysgafnhau'r beichiau mae'r Pwyllgor yn eu cydnabod. Byddai gostyngiad o ddwy awr yn effeithio ar nifer fach iawn o

achosion, gan arwain at ostyngiad bach iawn mewn beichiau, ond bydd y Llywodraeth yn ystyried sut gall y mesurau a ddisgrifir uchod, ar eu pen eu hunain, neu drwy eu cyfuno, arwain at ostyngiad mewn beichiau heb gael gormod o effaith ar dryloywder.

18. Byddwn hefyd yn edrych ar fynd i'r afael ag achosion pan fydd un unigolyn neu un grŵp o bobl yn defnyddio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i wneud ceisiadau amherthnasol i'r un awdurdod cyhoeddus mor aml eu bod yn dod yn faich amhriodol neu anghymesur.

Mae'r Ddeddf yn gweithredu ar y sail na welir y sawl sy'n cyflwyno'r cais. O ganlyniad mae'n anodd, os nad yn amhosibl, datblygu ffordd i godi ar y rheini sy'n gwneud ceisiadau ac sy'n cael budd masnachol o'r wybodaeth a gânt gan awdurdodau cyhoeddus. Byddai modd osgoi unrhyw ofyniad bod y sawl sy'n gwneud cais yn datgelu pwy ydyw drwy ddefnyddio enw ffrind, aelod o'r teulu neu rywun arall. Byddai ymdrechion i blismona system o'r fath, naill ai gan awdurdodau cyhoeddus neu'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ddrud ac yn debyg o gael effaith gyfyngedig. (Paragraff 81)

Rhaid cydnabod hefyd bod ffocws y Ddeddf ar a oes cyfiawnhad dros ddatgelu gwybodaeth, nid pwy sy'n gofyn am yr wybodaeth honno. Os yw'r cynllun statudol yn pennu ei bod yn iawn y dylid rhyddhau data yna mae'n amherthnasol pwy sy'n gofyn am y cyhoeddi; caiff yr wybodaeth ei rhyddhau i bawb nid dim ond i'r unigolyn sy'n gwneud y cais. Serch hynny gellid dadlau y dylai rhywun sy'n ceisio arfer hawliau rhyddid gwybodaeth fod yn fodlon bod y cyhoedd yn cael gwybod eu bod wedi gofyn am wybodaeth o'r fath; felly rydym yn argymhell pan gyhoeddir gwybodaeth sydd wedi'i rhyddhau o geisiadau rhyddid gwybodaeth mewn log datgelu, y dylid cyhoeddi enw'r sawl a wnaeth y cais ochr yn ochr â'r wybodaeth honno. (Paragraff 82)

Er ein bod yn cydnabod bod dadl economaidd o blaid bod y drefn rhyddid gwybodaeth yn cyllido ei hun yn sylweddol neu'n gyfan gwbl, byddai ffioedd ar lefel sy'n ddigon uchel i adennill costau yn rhwystro ceisiadau sydd â budd y cyhoedd cryf a byddai'n mynd yn groes i ddibenion y Ddeddf, a byddai modd osgoi ffioedd a gyflwynir ar gyfer sefydliadau masnachol a'r cyfryngau. (Paragraff 85)

Er mwyn ailystyried y ddadl economaidd dros godi ffioedd yn y dyfodol, byddai angen data gwell o lawer am nifer y ceisiadau a wneir o dan y Ddeddf a'r costau sydd ynghlwm wrth ymateb iddynt. (Paragraff 86)

19. Mae'r Llywodraeth wedi comisiynu ymchwil i gostau ac mae wedi rhannu hynny â'r Pwyllgor Dethol ym mis Mawrth 2012. Mae'r ymchwil hwn yn rhoi sylfaen ddefnyddiol ar gyfer dadansoddi dewisiadau polisi. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Pwyllgor Dethol y byddai codi ffioedd wedi'u targedu yn anodd ac yn feichus i'w orfodi a'i blismona. Mae'r ffaith nad yw'r Ddeddf yn gweld y sawl sy'n gwneud y cais yn golygu nad oes ffordd ystyrlon i awdurdodau cyhoeddus olrhain pwy sy'n gwneud ceisiadau heb gynyddu'r baich ar yr awdurdodau hynny. Yn ogystal â'r problemau o nodi

pwy sy'n gwneud ceisiadau, byddai hefyd yn anodd adnabod eu cymhellion yn effeithiol. Byddai'n anodd tynnu'r llinell rhwng y sawl sy'n gofyn am wybodaeth at ddibenion masnachol a'r un unigolyn yn gofyn am wybodaeth at ddibenion anfasnachol. Yn yr un modd, byddai'n anodd atal unigolion rhag gofyn am wybodaeth ar ran pobl eraill. Mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad y byddai felly'n anodd ac yn ddrud rhoi hynny ar waith a byddai'n arwain at risg uwch o ymgyfreitha.

20. Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag asesiad y Pwyllgor y byddai codi ffi am geisiadau rhyddid gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar dryloywder ac y byddai'n tansilio amcanion y Ddeddf. Ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais at ddibenion masnachol, mae Agenda Tryloywder y Llywodraeth wedi cefnogi bod gwybodaeth y sector cyhoeddus yn gallu chwarae rhan o ran hybu twf economaidd ac o'r herwydd, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cwtogi ar allu'r rheini sy'n chwilio am wybodaeth at ddibenion masnachol.
21. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ei bod yn rhaid i unrhyw ystyriaeth o feichiau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hefyd ystyried y manteision, yn ddiriaethol ac yn anniriaethol, a ddaw drwy'r Ddeddf. O'r herwydd nid ydym yn bwriadu newid y drefn codi ffioedd bresennol lle gellir codi ffioedd am atgynhyrchu neu gyfleu ceisiadau.
22. Ar ben hynny, byddai'n ddrud gweinyddu ffi a gallai arwain at gynyddu'r beichiau ar awdurdodau cyhoeddus yn hytrach na'u gostwng. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried ffi nominal, yn hytrach na ffi uwch o lawer i adfer costau'n llawn. Mae'r profiad gyda chodi ffioedd Cais Gwrthrych am Wybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data yn awgrymu y byddai ffi reolaidd, nominal yn cael ei defnyddio'n anghyson ac felly byddai p'un ai a oedd yn rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais dalu am wybodaeth yn dibynnu ar yr awdurdod cyhoeddus sy'n dal yr wybodaeth mae'n gofyn amdani. O'r herwydd, mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Pwyllgor ac nid yw'n bwriadu cyflwyno ffi o unrhyw fath.
23. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn awyddus i edrych ar y potensial i ddefnyddwyr gyfrannu rhagor at gostau tribiwnlysoedd. Caiff ffioedd eu codi mewn rhai awdurdodaethau'n barod (er enghraifft, yn y tribiwnlys Mewnfudo a Lloches) a byddwn yn edrych ar y posibilrwydd i ymestyn y dull gweithredu hwn i fathau eraill o dribiwnlysoedd, gan gynnwys y tribiwnlys Gwybodaeth.
24. Nid yw'r Llywodraeth o'r un farn y byddai cyhoeddi enwau'r rheini sy'n gwneud cais mewn logiau datgelu o fudd o ran beichiau. Byddai gweithred o'r fath yn golygu goblygiadau i ddiogelu data'r rheini sy'n gwneud cais, ac nid oes dim tystiolaeth y byddai'n cael unrhyw effaith gadarnhaol ar dryloywder nac ar leihau beichiau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O'r herwydd nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu derbyn yr argymhelliad hwnnw ar hyn o bryd.

Mae tystiolaeth gan ein tystion yn awgrymu bod modd lleihau cost rhyddid gwybodaeth os ystyrir y ffordd mae awdurdodau cyhoeddus yn delio â cheisiadau. Mae hyn yn galw am arweinyddiaeth a ffocws gan

uwch aelodau sefydliadau cyhoeddus. Bydd cwynion am gostau rhyddid gwybodaeth yn swnio'n wag pan fyddant yn cael eu gwneud gan awdurdodau cyhoeddus sydd wedi methu â buddsoddi'r amser a'r ymdrech angenrheidiol i greu cynllun rhyddid gwybodaeth effeithlon. (Paragraff 90)

25. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod ffyrdd eraill, heb fod yn rhai deddfwriaethol, o wella sut y mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gweithredu mewn awdurdodau cyhoeddus a gwella effeithlonrwydd delio â cheisiadau rhyddid gwybodaeth, a thrwy hynny lleihau'r beichiau. O'r herwydd bydd y Llywodraeth yn ystyried ffyrdd o rannu ymarfer da ac annog awdurdodau cyhoeddus i wella eu prosesau. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu adolygu'r Cod Ymarfer a gyhoeddir o dan adran 45 yn ogystal â'r cyfarwyddyd a gyhoeddir i awdurdodau cyhoeddus i ganfod lle gellid gwella. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol bod gan awdurdodau cyhoeddus gwahanol anghenion ac amcanion gwahanol, ac felly mae'r Llywodraeth yn awyddus y dylai awdurdodau cyhoeddus eu hunain barhau i benderfynu ar eu prosesau eu hunain. Mae'r Llywodraeth yn gweld ei swyddogaeth fel hwyluso a galluogi rhannu gwybodaeth yn well.

3. Oedi (Adran 10) a Gorfodi (Adran 77)

Roeddem yn falch o glywed mai cymharol brin oedd y cwynion am gydymffurfio â'r amser ymateb 20 diwrnod. Rydym yn credu bod ymateb cyn pen 20 diwrnod yn rhesymol ac y dylid cynnal hynny. (Paragraff 94)

26. Mae'r Llywodraeth o'r un farn â'r Pwyllgor ynghylch yr amserlen 20 diwrnod gwaith ar gyfer ateb ceisiadau cychwynnol. Rydym wedi bod yn awyddus i wella i ba raddau y cydymffurfir â'r amserlen hon. Mae ystadegau'n dangos bod prydlondeb wedi gwella ers i'r Ddeddf ddod i rym.

Nid yw'n dderbyniol bod awdurdodau cyhoeddus yn gallu gohirio ceisiadau drwy gynnal adolygiadau mewnol di-ben-draw. Yn gyffredinol ni ddylai adolygiadau o'r fath olygu bod angen gwybodaeth gan drydydd partiön, ac felly nid ydym yn gweld rheswm dros beidio â chael terfyn amser statudol—mae'n ymddangos y byddai 20 diwrnod yn rhesymol—ar gyfer eu cynnal. Gallai estyniad fod yn dderbyniol os oes angen ymgynghori â thrydydd parti. (Paragraff 103)

Rydym yn argymhell y dylid rhoi terfyn amser ar gyfer adolygiadau mewnol mewn statud. Dylai'r terfyn amser fod yn 20 diwrnod, fel y mae ar hyn o bryd o dan y Cod Ymarfer, gydag estyniad a ganiateir o 20 diwrnod ychwanegol ar gyfer ceisiadau sy'n arbennig o gymhleth neu swmpus. (Paragraff 112)

27. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylid cwblhau adolygiadau mewnol yn amserol ond nid yw o'r un farn â'r Pwyllgor bod adolygiadau mewnol yn cael eu defnyddio fel mater o drefn i ohirio ymatebion. Mae ystadegau'n dangos yn 2011 bod 53% o Adolygiadau Mewnol gyda chanlyniad hysbys wedi cael eu cwblhau cyn pen 20 diwrnod gwaith ac roedd 86% wedi cael eu cwblhau cyn pen 40 diwrnod gwaith, mewn llywodraeth ganolog. Pan fydd awdurdod cyhoeddus yn cymryd amser afresymol i gynnal adolygiad mewnol, mae rhwydd hant i'r sawl sy'n gwneud cais gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac yna gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth orchymyn cwblhau'r adolygiad mewnol cyn pen cyfnod penodol pan fydd yn fodlon bod angen gwneud hynny. O'r herwydd nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod y dystiolaeth yn awgrymu bod problem fawr gyda gormod o oedi yng nghyswllt adolygiadau mewnol. Pan fydd problemau'n codi, mae'r Llywodraeth yn fodlon bod yr atebion priodol ar gael. Ar ben hynny, ceir perygl y gall amserlen statudol arwain at frys i gwblhau adolygiadau mewnol yn unol â'r amserlen ond na fyddent wedyn yn cael eu cwblhau mor drylwyr ag sydd angen.

28. Nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ei hun yn cynnwys gofyniad i gynnal adolygiadau mewnol, ond mae'n rhan o'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45, sydd hefyd yn mynnu y dylai'r cyfnod a gymerir i gynnal yr adolygiad fod yn rhesymol yn yr amgylchiadau. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod sefydlu'r arfer gorau ar gyfer adolygiadau mewnol drwy God Ymarfer,

yn hytrach na statud, a chaniatáu rhywfaint o ddisgresiwn ynghylch yr amserlen ar gyfer ymateb, yn ffordd briodol o sefydlu disgwyliad clir o brydlondeb. Mae hefyd yn ymwneud â'r amserlen gan roi'r hyblygrwydd angenrheidiol i awdurdodau cyhoeddus i gynnal adolygiadau trwyadl o benderfyniadau gwreiddiol mewn perthynas ag achosion sy'n gallu bod yn gymhleth dros ben weithiau.

29. Mae'r Llywodraeth yn credu bod diddymu'r hyblygrwydd hwnnw'n creu'r perygl o roi rhagor o faich ar awdurdodau cyhoeddus ac na fyddai modd cyfiawnhau gwneud hynny ar sail y dystiolaeth. Ar ben hynny, ceir perygl y byddai awdurdodau cyhoeddus sy'n delio ag adolygiadau mewnol cymhleth yn teimlo ei bod yn rhaid iddynt ystyried yr adolygiadau hynny ar frys, gan arwain at benderfyniadau salach.
30. Serch hynny, gan ei bod wedi cytuno y dylai adolygiadau mewnol gael eu cwblhau cyn gynted ag sy'n bosibl, mae'r Llywodraeth yn credu efallai fod lle i egluro yn y Cod Ymarfer beth mae cyfnod rhesymol yn ei olygu. Er bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyflwyno sylwadau ar y mater hwn, mae'r Llywodraeth yn bwriadu diwygio'r Cod Ymarfer i ddynodi y dylid cwblhau adolygiadau mewnol cyn pen 20 diwrnod gwaith, cymaint ag y bo modd ac oni bai fod gan awdurdod cyhoeddus reswm da fel arall.

Rydym yn argymhell y dylai fod yn rhaid i bob corff cyhoeddus a ddaw o dan y Ddeddf gyhoeddi data am brydlondeb eu hymatebion i geisiadau rhyddid gwybodaeth. Dylai hyn gynnwys data ar estyniadau a'r amser a gymerir ar gyfer adolygiadau mewnol. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am gydymffurfriad yr awdurdod â'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf a bydd hefyd yn caniatáu i'r Comisiynydd Gwybodaeth fonitro'r sefydliadau hynny sydd â'r lefelau cydymffurfriad isaf. (Paragraff 109))

31. Bydd nifer o'r awdurdodau cyhoeddus mwyaf yn cyhoeddi ystadegau'n rheolaidd ynghylch eu cydymffurfriad â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys cyhoeddi ystadegau yn chwarterol gan lywodraeth ganolog.
32. Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod angen gofyniad cryfach i gyhoeddi ystadegau oherwydd y baich posibl y byddai hyn yn ei roi ar awdurdodau cyhoeddus, yn enwedig y rhai llai. A hithau'n gyfnod pan fydd nifer o awdurdodau cyhoeddus yn gweithredu gyda llai o adnoddau, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi beichiau ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus pan nad oes budd amlwg o wneud hynny.

Rydym yn argymhell rhoi'r estyniad 20 diwrnod mewn statud. Dim ond pan fydd yn rhaid ymgynghori â thrydydd parti sy'n allanol i'r sefydliad sy'n ymateb i'r cais y dylid caniatáu estyniad pellach. (Paragraff 111)

33. Mae adran 10 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi'r estyniad a ganiateir i ystyried budd y cyhoedd, gyda'r gofyniad y dylai hyd yr estyniad fod yn rhesymol. Mae'r Llywodraeth yn credu bod angen yr estyniad er mwyn ystyried achosion cymhleth ond mae'n cytuno na ddylai'r estyniad fod yn ormodol. Nid yw'r Llywodraeth yn credu bod problem fawr o ran yr estyniad yn achosi oedi sylweddol wrth ymateb i geisiadau. Ar ben hynny,

pan fydd estyniadau'n ormodol, mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth bŵer i ymchwilio, a gorchymyn bod yr estyniad yn cael ei gwblhau cyn pen cyfnod penodol. Mae ystadegau'n dangos yn 2011 bod 56% o'r ceisiadau estynedig a broseswyd wedi cael eu cwblhau cyn pen 20 diwrnod gwaith ac roedd 79% wedi cael eu cwblhau cyn pen 40 diwrnod gwaith. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi cyfarwyddyd ynghylch yr hyn sy'n golygu amserlen resymol, ac mae ganddi'r disgrisiwn i orchymyn bod awdurdod cyhoeddus wedi mynd dros amserlen resymol ac y dylid ateb y cais cyn pen amserlen benodol ar ôl hynny.

34. Yn yr un modd â gydag adolygiadau mewnol, mae'n bwysig bod gan awdurdodau cyhoeddus rywfaint o hyblygrwydd o ran faint o amser sydd ganddynt i ystyried budd y cyhoedd. O'r herwydd nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyfyngu ar yr hyblygrwydd hwnnw a pheryglu penderfyniadau wedi'u brysio ar ran yr awdurdodau cyhoeddus drwy osod terfyn amser statudol ar gyfer cwblhau'r estyniad.
35. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn credu bod y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gerbyd priodol i argymhell y dylai estyniadau bara dim mwy nag ugain diwrnod gwaith, ac eithrio pan fydd gan awdurdodau cyhoeddus reswm da dros fynd dros yr amserlen honno.

Mae natur trosedd diannod y trosedd adran 77 yn golygu nad oes neb wedi cael ei erlyn am ddiaristrio na newid data mae modd ei ddatgelu, er bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi gweld tystiolaeth bod trosedd o'r fath wedi digwydd. Rydym yn argymhell bod adran 77 yn cael ei wneud yn drosedd neillffordd a fydd yn diddymu'r cyfnod terfyn o gyhuddo. Rydym hefyd yn argymhell pan fydd cyhuddiad o'r fath yn cael ei wrando yn Llys y Goron, bod dirwy uwch na'r £5000 presennol ar gael i'r llys. Rydym yn credu y bydd y diwygiadau hyn i'r Ddeddf yn anfon neges glir i gyrff cyhoeddus ac unigion sy'n ystyried gweithredu'n droseddol. (Paragraff 121)

36. Mae'r Llywodraeth yn derbyn casgliad y Pwyllgor Dethol nad yw'r darpariaethau presennol o dan adran 77 yn ddigon i ganiatáu digon o amser i Swyddfa'r Comisiynydd ddod ag erlyniad pan fo hynny'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth yn credu bod angen i achosion o dan adran 77 gael eu gwrandio gan Llys y Goron, na bod y cosbau presennol yn annigonol o ran bod yn ddull effeithiol o rwystro camymddwyn. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymestyn yr amser sydd ar gael i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i chwe mis o'r adeg pan ddaw'n ymwybodol bod trosedd wedi'i gomisiynu yn hytrach na chwe mis o'r adeg pan fydd trosedd o'r fath yn digwydd. Bydd y newid hwn yn mynd i'r afael â'r broblem graidd o ddiffyg amser i ddod ag erlyniad heb ymateb gormodol o wneud y trosedd yn un neillffordd.

4. Ceisiadau Blinderus (Adran 14) a Mathau o Bobl sy'n gwneud Cais

Mae'n amlwg gan dystion bod ceisiadau disylwedd yn broblem fach iawn, ond gallant fod yn rhwystredig. Mae achos dros ychwanegu ceisiadau disylwedd at y categori presennol o geisiadau blinderus mae modd eu gwrthod, ond fel rheol mae'n weddol hawdd delio â cheisiadau o'r fath, sy'n golygu ei bod yn anodd cyfiawnhau newid yn y gyfraith. (Paragraff 135)

37. Mae'r Llywodraeth o'r un farn â nifer o dystion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor bod ceisiadau blinderus yn gallu bod yn rhwystredig ac yn faich ar awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd gwrthod ceisiadau disylwedd yn barod fel rhai blinderus, yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. O'r herwydd, mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Pwyllgor na fyddai cyfiawnhad dros newid statudol.
38. Ceir rhywfaint o dystiolaeth nad yw awdurdodau cyhoeddus yn teimlo mor hyderus ag y gallent fod wrth ddefnyddio adran 14. O'r herwydd mae'r Llywodraeth yn bwriadu ystyried a fyddai modd diwygio'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 i roi mwy o eglurder i awdurdodau cyhoeddus ynghylch pa fathau o geisiadau mae modd eu gwrthod o dan adran 14 a pha ffactorau gallant eu hystyried wrth benderfynu a ddylid defnyddio adran 14. Fel rhan o hyn, ac mewn perthynas â dehongli Adran 8 o'r Ddeddf, bydd y Llywodraeth yn ystyried a yw'r Cod Ymarfer yn rhoi digon o gyfarwyddyd i awdurdodau cyhoeddus ar gyfer delio â'r rheini sy'n gwneud cais yn ddiennw neu sy'n defnyddio ffugenwau.

Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol i awdurdodau cyhoeddus ddynodi mewn llythyr ymateb faint y mae ymateb i'r cais wedi'i gostio, yn fras. Rydym yn argymhell bod y Comisiynydd Gwybodaeth yn ystyried y ffordd hawsaf i awdurdodau gyfrifo ffigur o'r fath. Rydym yn credu bod hyn yn annhebyg o rwystro ymholiadau go iawn, ond o leiaf bydd yn amlygu'r effaith a gaiff defnyddwyr anghyfrifol o'r Ddeddf. (Paragraff 138)

39. Mae'r Llywodraeth yn deall diben yr argymhelliad hwn ac mae'n cydnabod bod awdurdodau cyhoeddus yn rhydd i gyfrifo a chyfleu cost delio â cheisiadau unigol pan fyddant yn credu bod hynny'n briodol. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwthio'r dewis hwn ar awdurdodau cyhoeddus ac mae'n fodlon galluogi awdurdodau cyhoeddus unigol i benderfynu a fyddai'r dewis hwn yn ffordd effeithiol o rwystro ceisiadau sy'n rhy feichus.

5. Ffurio Polisi, Lleuedd Diogel a'r Effaith Iasoer

Mae Rhyddid Gwybodaeth yn esgor ar lawer o fanteision, ond mae risgiau ynghlwm wrtho hefyd. Gallai gallu swyddogion i ddarparu cyngor di-flewyn ar dafod i Weinidogion, y cyfle i Weinidogion a swyddogion drafod polisi yn onest ac yn gynhwysfawr, y gofyniad i gadw cofnodion llawn a chywir, a chonfensiwn cyfrifoldeb Cabinet cyfunol, sydd wrth wraidd ein system o Lywodraeth, i gyd fod o dan fygythiad petai'r system Rhyddid Gwybodaeth yn caniatáu datgelu gwybodaeth cyn pryd neu wybodaeth amhriodol. Un o'r anawsterau rydym wedi'i wynebu yn yr ymchwiliad hwn yw asesu pa mor wirioneddol yw'r bygythiadau hynny, o gofio'r trefniadau diogelwch a ddarperir o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth bresennol a pha welliannau, os o gwbl, sydd eu hangen i sicrhau bod 'lle diogel' ar gyfer llunio polisiau. (Paragraff 154)

Mae'n amlwg bod sawl penderfyniad gan y Comisiynydd a'r Tribiwnlys wedi cydnabod yr angen am 'lle diogel'. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'r un mor amlwg bod eu penderfyniad y dylid datgelu gwybodaeth wedi herio ffiniau'r lle diogel hwnnw. Rydym yn derbyn petai 'effaith iasoer' (*chilling effect*) Rhyddid Gwybodaeth yn dod yn realiti, byddai'r risg y gallai gwybodaeth gael ei datgelu yn gallu bod yn ddigon i greu newid ymddygiad annerbyniol ymysg llunwyr polisi. Rydym yn derbyn nad yw cyfraith achosion wedi datblygu'n ddigonol i olygu bod llunwyr polisi yn sicr beth sy'n lle diogel a beth nad yw'n lle diogel. (Paragraff 166)

Er ein bod yn credu bod y pŵer i weithredu'r fetto weinidogol yn rhwystr angenrheidiol i ddiogelu deunydd sensitif iawn, mae defnyddio'r gair eithriadol yng nghyd-destun adran 53 yn gymhleth yn y fan hon. Os yw'r fetto am gael ei defnyddio i ddiogelu trafodaethau'r cabinet neu drafodaethau polisi lefel uchel eraill, yn hytrach na delio ag amgylchiadau sydd wir yn eithriadol, yna byddai'n well diwygio'r Datganiad Polisi ar ddefnyddio'r fetto weinidogol er mwyn darparu eglurder i bawb. Rydym wedi ystyried atebion eraill i'r broblem hon ond, o gofio bod y Ddeddf wedi darparu un o'r systemau mwyaf agored yn y byd o ran mynediad at wybodaeth ar lefel uchaf y Llywodraeth, credwn fod y fetto hon yn fecanwaith priodol, lle bo angen, i ddiogelu datblygiad polisi ar y lefelau uchaf un. (Paragraff 179)

Ymchwil yr Uned Gyfansoddiad ar Ryddid Gwybodaeth yw'r darn mawr cyntaf o waith ymchwil o'i fath ac mae'n gyfraniad gwerthfawr at y drafodaeth ynghylch Rhyddid Gwybodaeth. Wrth iddi ystyried yr effaith iasoer, daeth yr Uned i'r casgliad ar y cyfan bod effaith Rhyddid Gwybodaeth yn ymddangos yn weddol fach neu ymylol. Rydym yn nodi'r canfyddiad hwn ac wedi'i ystyried yn ein trafodaethau. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi cadw dau bwynt cysylltiedig mewn cof, sef: er ein bod yn parchu'r casgliadau cyffredinol, rydym yn nodi bod yr ymchwil wedi cynnwys sawl cyfweiliad gyda chyfranogwyr a oedd yn awgrymu bod

ymddygiad wedi newid, o leiaf yn rhannol oherwydd Rhyddid Gwybodaeth; yn ail, fel y mae'r Uned ei hun yn nodi, os yw'r effaith iasoer yn bodoli byddai, yn ôl ei natur, yn anodd iawn canfod tystiolaeth wrthrychol, galed ohoni. Dyna pam, ar y pwnc hwn, mae angen o leiaf ystyried hanesion ac argraffiadau,

er efallai nad ydynt yn cynnwys y cywirdeb academiaidd y byddem yn ddelfrydol yn dymuno seilio casgliadau arnynt. (Paragraff 190)

Os yw'r Swyddogion ar y lefel uchaf yn y Llywodraeth yn poeni am effaith y Ddeddf ar y gallu i ddarparu cyngor di-flewyn ar dafod dylent nodi'n benodol fod y Ddeddf eisoes yn darparu lle diogel, a bod y Llywodraeth yn barod i ddefnyddio'r fetó weinidogol i warchod y lle hwnnw os oes angen. (Paragraff 198)

Ers pasio'r Ddeddf, os yw nodiadau a chofnodion yn debygol o gael eu cyhoeddi mae dulliau eraill wedi datblygu sy'n debyg o arwain at fwy o gyhoeddusrwydd ar gyfer y wybodaeth a ddatgelwyd na phetai'r wybodaeth wedi cael ei chyhoeddi o dan yr hawl i gael mynediad at wybodaeth. (Paragraff 199)

Ni allwn ddod i'r casgliad, gydag unrhyw sicrwydd, bod effaith iasoer wedi datblygu o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Ar yr un llaw, mae gwaith ymchwil yr Uned Gyfansoddiad—y mwyaf trylwyr sydd ar gael—yn awgrymu mai effaith ymylol yn unig a gaiff. Ar y llaw arall, mae amrediad o gyfranogwyr amlwg sydd ar hyn o bryd, neu wedi bod, wrth galon y broses llunio polisi yn tystio bod hyn yn broblem. Nid ydym yn gweld pam y byddai cyn uwch weinidogion a swyddogion yn benodol yn codi'r pryder hwn pe na fyddent wir yn credu ei fod yn broblem, ac rydym yn rhoi pwys ar eu sylwadau. Fodd bynnag, rhoddir gwerth hefyd i'r ffaith bod y Ddeddf wedi agor mwy o ddrysau, yn enwedig o safbwynt pŵer unigolion i arfer eu hawl i gael gwybodaeth yn rhagweithiol, yn hytrach na bod awdurdodau cyhoeddus yn penderfynu beth sy'n cael ei ddatgelu, pryd ac i bwy, hyd yn oed wrth weithredu gyda'r bwriadau gorau. Yn yr un modd, ceir rhesymau eraill pam fod rhai swyddogion a gwleidyddion yn fwy-fwy amharod i greu cofnodion papur, nid lleiaf y posibilrwydd cynyddol y bydd rhyw fath o ymchwiliad cyhoeddus yn arwain yn y pen draw at gyhoeddi nodiadau a chofnodion. Dyna pam ein bod yn betrus ynghylch cyfyngu ar yr hawliau a roddir yn y Ddeddf yn absenoldeb tystiolaeth fwy sylweddol. (Paragraff 200)

Gan ystyried ansicrwydd y dystiolaeth, nid ydym yn argymhell unrhyw newid mawr i leihau'r natur agored a grëwyd gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, o gofio bwriad clir y Senedd wrth basio'r ddeddfwriaeth y dylid caniatáu "lle diogel" ar gyfer ffurfio polisi a thrafodaethau'r Cabinet, rydym yn atgoffa pawb sy'n defnyddio ac sy'n pennu'r lle hwnnw, mai bwriad y Ddeddf oedd diogelu trafodaethau polisi ar lefel uchel. Rydym hefyd yn cydnabod bod realiti Llywodraeth yn golygu y bydd rhaid defnyddio'r fetó weinidogol o bryd i'w gilydd i warchod y lle hwnnw. (Paragraff 201)

40. Mae'r Llywodraeth yn croesawu ac yn rhannu casgliad y Pwyllgor mai bwriad clir y Senedd oedd y dylai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth warchod lle diogel ar gyfer ffurfio polisi a thrafodaethau'r Cabinet. Cytunwn â'r Pwyllgor fod asesu gwir effaith y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar lle diogel a'r effaith iasoer yn anodd, ond mae'n amlwg bod canfyddiad yn bodoli nad yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar hyn o bryd yn rhoi diogelwch digonol, ac mae hynny ynddo'i hun yn broblematic. Mae perygl y gallai canfyddiad o'r fath ddatblygu'n hunandybus, ac oni roddir sylw iddo, gallai effeithio ar allu swyddogion i roi cyngor agored a di-flewyn ar dafod neu ar eu dull o gadw cofnodion yn gywir.
41. Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn bwysig bod diogelwch priodol ar gael i gofnodion y Cabinet ac i'r lle diogel ar gyfer ffurfio a datblygu polisïau. Mae Llywodraeth effeithiol yn dibynnu ar allu Gweinidogion a swyddogion i drafod materion a rhoi cyngor yn agored, yn ddi-flewyn ar dafod a heb ddal yn ôl. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod mai prin iawn y gorchmynnwyd datgelu gwybodaeth y Cabinet ac, yn yr achosion lle gwnaethpwyd hynny, roedd y feto ar gael fel dull o ddarparu diogelwch priodol. Mae hefyd yn amlwg bod y Comisiynydd Gwybodaeth wedi bod yn barod i ddefnyddio adran 35 mewn sawl achos, gan ddangos lefel y diogelwch a ddarperir ganddo eisoës. Am y rheswm hwnnw, mae'r Llywodraeth yn credu bod fframwaith cyfreithiol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, drwy'r eithriadau a'r feto, yn cynnig diogelwch digonol ar gyfer y mathau hyn o wybodaeth sensitif.
42. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Pwyllgor fod gallu'r Gweinidogion i ddiystyru, a ddarperir gan adran 53 (y feto) yn arf angenrheidiol i ddiogelu gwybodaeth hanfodol os yw'r Llywodraeth yn dod i'r casgliad bod sensitifrwyd y wybodaeth yn mynnu bod rhaid ei ddefnyddio. Hyd yma, mae'r Llywodraeth bresennol a'r Llywodraeth flaenorol wedi defnyddio'r feto, a hynny mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, ac fe eglurwyd hynny'n llawn bob tro gan yr unigolyn atebol. Mae'r Llywodraeth yn credu bod y feto yn erfyn priodol a chymesur i ddiogelu gwybodaeth sensitif a hynny heb gael effaith sylweddol ar dryloywder. Mae'r ffaith mai chwe gwaith yn unig y defnyddiwyd y feto mewn bron wyth mlynedd yn dangos mai dim ond mewn cyfran fach iawn o ymholiadau y mae angen defnyddio'r feto.
43. Caiff y defnydd o'r feto ei lywio gan bolisi'r Llywodraeth ar hyn. Cytunwyd ar y polisi hwn ar y cyd ac mae'n datgan mai mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y dylid ei weithredu. Mae'r Llywodraeth yn nodi argymhelliad y Pwyllgor y gellid ail-archwilio pa mor briodol yw'r egwyddor hon o amgylchiadau eithriadol.
44. Hefyd, ar hyn o bryd, mae polisi'r feto yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddiogelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag athrawiaeth cyd-gyfrifoldeb yn y Cabinet. Er nad yw'n datgan yn benodol na ellir defnyddio'r feto ar gyfer gwybodaeth arall, nid yw'n hawdd addasu'r polisi i fod yn berthnasol y tu hwnt i'r cyd-destun y mae'n canolbwyntio arno. Er enghraifft, mae'r meini prawf (a nodir yn y polisi) i'w defnyddio wrth benderfynu a ddylid

defnyddio'r feto yn cyfeirio'n amlwg at gyd-gyfrifoldeb ond nid yw mor glir o ran gwybodaeth arall.

45. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu adolygu ac, os yw'n briodol, adolygu'r polisi ar ddefnyddio'r feto. Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, rydym yn cynnig ystyried sut y gellir addasu polisi'r feto o ran y broses ar gyfer ei defnyddio ac i gynnig mwy o eglurder a sicrwydd ar ei gallu i gynnig diogelwch priodol sy'n ychwanegol at yr hyn a ddarperir ganddi yng nghyd-destun gwybodaeth sy'n ymwneud â chyd-gyfrifoldeb y Cabinet.

6. Yr Eithriad Cyn-Cyhoeddi (Adran 22) a'r Eithriad Iechyd a Diogelwch (Adran 38)

Gwnaethom argymhell y dylid diwygio adran 22 y Ddeddf i roi'r un diogelwch i waith ymchwil a wnaethpwyd yng Nghymru a Lloegr ag a roddir yn yr Alban. Er na fydd ymestyn adran 22 yn datrys yr holl anawsterau a wynebwyd gan brifysgolion yn y maes hwn, credwn fod ei angen i sicrhau cydraddoldeb ag awdurdodaethau tebyg eraill, yn ogystal â diogelu gwaith ymchwil parhaus, ac felly mae hwn yn ymateb cymesur i'w pryderon. Bydd angen adolygu a yw'r datrysiad hwn yn ddigonol ac a yw'n gweithio'n foddhaol ar adeg resymol ar ôl ei gyflwyno. (Paragraff 214)

Gan fod y Swyddfa Gartref yn dal i adolygu adran 24 o Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 yn dilyn newidiadau mewn cyfraith Ewrop, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhelliad o ran sut y dylai'r Llywodraeth weithredu ond byddwn yn ystyried canlyniad yr adolygiad pan fydd yn dod i law. Nid oes disgwyl y bydd angen diwygio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ymateb i bryderon prifysgolion yn y maes hwn. (Paragraff 221)

Rydym yn annog prifysgolion yn daer i ddefnyddio i'r eithaf y diogelwch sy'n bodoli er iechyd a diogelwch ymchwilwyr yn adran 38 y Ddeddf, ac rydym yn disgwyl y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn cydnabod y pryderon dilys. Ni ddylai'r un sefydliad gael ei atal rhag cyflawni gwaith ymchwil sydd wedi'i fonitro a'i reoleiddio'n briodol o ganlyniad i fygythiadau; nid dyma oedd bwriad y Senedd wrth basio'r Ddeddf ac rydym yn fodlon ategu mai dyma yw'r sefyllfa o hyd. (Paragraff 222)

46. Mae'r Llywodraeth yn deall y pryderon sydd wedi'u mynegi gan y sector Addysg Uwch yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, ac mae'n cydnabod y pwysigrwydd bod y DU yn cynnal ac yn cryfhau ei safle ar flaen y gad mewn gwaith ymchwil rhyngwladol. Mae'n bwysig nad yw pryderon am ddatgelu amhriodol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn tanseilio'r sefyllfa hon. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth eisoes yn darparu nifer o eithriadau y gellir eu defnyddio i ddiogelu gwybodaeth ymchwil, gan gynnwys y rheini yn adrannau 22 (gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol), 36 (cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol), 38 (iechyd a diogelwch), 40 (data personol), 41 (torri cyfrinachedd sy'n agored i gyfraith), a 43 (2) (buddiannau masnachol). Mae'r Llywodraeth hefyd yn gwerthfawrogi gwaith llwyddiannus y Comisiynydd Gwybodaeth i wella dealltwriaeth o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yng nghyd-destun Addysg Uwch. Mae'n bwysig bod hyn yn parhau.

47. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y byddai mabwysiadu eithriad cymwys ar gyfer gwaith ymchwil yn rhoi rhagor o eglurder a thawelwch meddwl, i sefydliadau Addysg Uwch ac i bartneriaid ymchwil nad ydynt yn y sector cyhoeddus. Rydym yn derbyn, er bod cwmpas yr

eithriadau presennol yn eang, gallai diffyg eithriad penodol ar gyfer gwaith ymchwil o leiaf roi'r argraff nad yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn darparu diogelwch digonol. Felly, ar ôl pwysu a mesur mae'r Llywodraeth yn bwriadu diwygio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gyflwyno eithriad penodedig, yn amodol ar brawf rhagfarn a diddordeb y cyhoedd, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor. Mae'r Llywodraeth yn rhannu barn y Pwyllgor y byddai hyn yn ymateb cymesur i'r pryderon a fynegwyd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cytuno y dylid adolygu mesur o'r fath ar bwynt addas ar ôl ei gyflwyno.

48. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Pwyllgor na ddylid bod angen diwygio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ymateb i bryderon prifysgolion am ei gysylltiad â'r Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol). Yn sicr, ni fyddai'n briodol i argymhell unrhyw newid i'r Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) ei hun mewn adolygiad o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae hyn yn arbennig o wir o gofio'r ffaith bod y Swyddfa Gartref yn bwriadu adolygu adran 24 o'r Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) yn 2013. Bydd y Llywodraeth hefyd yn gweithio gyda phrifysgolion i roi sylw i'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor.
49. Mae'r Llywodraeth hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor o'r diogelwch a ddarperir gan adran 38 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn ogystal â'i sylwadau am fwriadau'r Senedd yn ystod hynt y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o ran gwaith ymchwil sydd wedi'i fonitro a'i reoleiddio'n briodol. Nid yw er budd y cyhoedd bod iechyd meddwl neu gorfforol unrhyw unigolyn yn cael ei roi mewn perygl oherwydd eu cysylltiad â gwaith ymchwil o'r fath. Mae'r Llywodraeth yn rhannu safbwynt y Pwyllgor bod adran 38 yn darparu diogelwch gwerthfawr y dylai prifysgolion ei defnyddio mewn achosion priodol.

7. Yr Eithriad Masnachol (Adran 43) a Defnyddio Rhyddid Gwybodaeth gyda Gwasanaethau Cyhoeddus ar Gontract Allanol

Nid oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddod i gasgliad ynghylch a yw adran 43 yn gweithio'n effeithiol i ddiogelu cystadleurwydd cyrff cyhoeddus wrth gystadlu am gontractau sector cyhoeddus. Fodd bynnag, ceir budd y cyhoedd cryf mewn cynnal cystadleuaeth rhwng cyrff sector cyhoeddus a phreifat yn deg i sicrhau'r canlyniad gorau i'r trethdalwr. Gyda mwy a mwy o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhoi ar gontract, rydym yn argymhell bod y Llywodraeth yn dal i adolygu'r mater hwn, ac os gwelir bod cyrff sector cyhoeddus o dan anfantais rydym yn disgwyl y bydd adran 43 yn cael ei diwygio neu fod model arall yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu buddiannau masnachol o'r fath. (Paragraff 231)

50. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Pwyllgor bod budd y cyhoedd cryf mewn cynnal cystadleuaeth rhwng cyrff y sectorau cyhoeddus a phreifat yn deg i sicrhau'r canlyniad gorau i'r trethdalwr. Rydym felly'n cytuno er bod tryloywder yn bwysig dros ben, ei bod yr un mor bwysig bod gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif yn cael ei diogelu'n ddigonol. Rydym yn cytuno y dylem barhau i adolygu'r mater hwn.

Rydym yn cytuno â'r Comisiynydd Gwybodaeth bod prifysgolion yn rhan bwysig o fyd cyhoeddus ac rydym yn credu bod y cyhoedd yn gyffredinol a'r rheini sy'n gweithio mewn prifysgolion yn eu hystyried fel sefydliadau cyhoeddus pwysig. Nid ydym felly'n argymhell y dylid tynnu prifysgolion o awdurdodaeth y Ddeddf. Rydym yn gwneud argymhellion ar wahân ym mharagraff 214 i ddelio â phroblemau posibl y gall y Ddeddf eu creu i ymchwil prifysgolion. (Paragraff 232)

51. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r Pwyllgor a'r Comisiynydd Gwybodaeth y dylai prifysgolion sy'n cael nawdd cyhoeddus aros o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae prifysgolion sy'n cael arian cyhoeddus yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus pwysig ac mae'n bwysig y dylent fod yn atebol drwy'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Er bod costau ynghlwm wrth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n cael sylw mewn rhannau eraill yn yr ymateb hwn, mae ymchwil yn dangos y manteision y mae swyddogion rhyddid gwybodaeth mewn prifysgolion yn credu y mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi'u cyflwyno o ran bod yn agored. Canfu arolwg bach o swyddogion rhyddid gwybodaeth fod 73% yn credu bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gwella natur agored a thryloyw eu sefydliad, a bod 59% arall yn credu ei bod wedi gwella rheoli gwybodaeth¹. Fodd bynnag, mae'r

¹ UCL Constitution Unit (2012), The Freedom of Information Act and Higher Education: The experience of FOI officers in the UK.

Llywodraeth wedi cydnabod pryderon penodol prifysgolion mewn perthynas â gwybodaeth ymchwil drwy dderbyn argymhelliaid y Pwyllgor y dylid cyflwyno eithriad penodol wedi'i fesur ar gyfer deunyddiau o'r fath.

Rhaid i'r cynnydd mewn defnyddio darparwyr preifat i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus beidio â thanseilio'r hawl i gael gafael ar wybodaeth. Mae'r dystiolaeth sydd wedi dod i law yn awgrymu bod defnyddio telerau contract i ddiogelu'r hawl i gael gafael ar wybodaeth yn gweithio'n gymharol dda ar hyn o bryd. Rydym yn nodi'r arwydd efallai fod rhai cyrff cyhoeddus yn amharod i weithredu os bydd darparwr preifat sy'n cydymffurfio â holl delerau eraill y contract yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau yn y maes hwn. Mewn tirwedd comisiynu sy'n newid yn gyflym, gall hyn danseilio'r Ddeddf yn sylfaenol. Rydym yn atgoffa pawb sy'n ymwneud â hyn bod yr hawl i gael gafael ar wybodaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder ar gyfer gwario arian trethdalwyr, ac y dylai contractau ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus gan y sector preifat neu wirfoddol bob amser gynnwys dyletswyddau clir mae modd eu gorfodi sy'n galluogi'r awdurdod comisiynu i ddiwallu gofynion rhyddid gwybodaeth. (Paragraff 239)

Rydym yn credu bod contractau'n rhoi sylfaen sy'n fwy ymarferol i ddefnyddio rhyddid gwybodaeth gyda gwasanaethau ar contract allanol na dynodi cwmnïau masnachol yn rhannol o dan adran 5 o'r Ddeddf, er efallai bydd angen defnyddio pwerau dynodi os na chaiff darpariaethau contract eu gweithredu a'u gorfodi. Rydym yn argymhell bod y Comisiynydd Gwybodaeth yn monitro cwynion a cheisiadau am gyfarwyddyd yn y maes hwn gan awdurdodau cyhoeddus. (Paragraff 240)

52. Mae'r Llywodraeth yn dal wedi ymrwymo i ymestyn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ddarparu mwy o dryloywder. Rydym eisoes wedi ymestyn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i academiâu, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, ac (ar gyfer ei swyddogaethau derbyn) Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau. O'r flwyddyn nesaf ymlaen bydd y Ddeddf Diogelu Rhyddidau'n dod â 100 o gyrff ychwanegol o dan ei chwmpas drwy gynnwys cwmnïau sy'n berchen yn gyfan gwbl i unrhyw nifer o awdurdodau cyhoeddus. Rydym yn bwriadu parhau i ymgynghori â dros 200 yn rhagor o sefydliadau gan gynnwys y Grŵp Llywodraeth Leol, Cydffederasiwn y GIG, awdurdodau harbwr a chyrff dyfarnu, ynghylch posibilrwydd eu cynnwys mewn perthynas â swyddogaethau o natur gyhoeddus maent yn eu cyflawni; ac wedyn ymgynghori â dros 2000 o gymdeithasau tai ynghylch yr un peth. Pan ddown i'r casgliad bod cyrff o'r fath yn cyflawni swyddogaethau sydd o natur gyhoeddus, rydym yn bwriadu deddfu o dan adran 5 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ddod â nhw o dan gwmpas y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny, oni bai fod rhesymau da iawn dros beidio â gwneud hynny, erbyn gwanwyn 2015. Bydd rhagor o orchmynion hefyd yn cael eu gwneud o dan adran 4 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ymateb i greu cyrff llywodraeth newydd a ddylai fod yn rhan o hyn. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn dal i adolygu

cwmpas y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ddod o hyd i ffyrdd eraill y byddai'n briodol ymestyn ei darpariaethau.

53. Er gwaethaf y cynnydd a'r cynlluniau sydd wedi'u hamlinellu uchod, mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod sialens bosibl cyflenwi rhagor o wasanaethau cyhoeddus gan ddarparwyr heb fod yn y sector cyhoeddus o ran tryloywder. Pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi ar ran awdurdod cyhoeddus o dan gontract, mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd y contractwyr yn helpu awdurdodau cyhoeddus yn llawn i ddiwallu eu dyletswyddau presennol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ystyried datgelu gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan gontractwr ar ran awdurdodau cyhoeddus. Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor y dylai contractau gynnwys darpariaethau clir i'r perwyl hwn, ac rydym yn pwysleisio na ddylai awdurdodau cyhoeddus fod yn amharod i gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau cydymffurfriad.
54. Fodd bynnag, ni fydd yr holl wybodaeth am gontract a'i gyflenwi yn cael ei chadw ar ran yr awdurdod cyhoeddus sy'n contractio at ddibenion adran 3 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yng ngoleuni dadansoddiad y Pwyllgor, mae'r Llywodraeth wedi ystyried y ffordd orau o ymateb i'r mater hwn. Er bod cynnal tryloywder yn bwysig, mae'n hanfodol hefyd bod beichiau rheoleiddio ar fusnesau'n cael eu lleihau. Roedd yn galonogol clywed awgrymiadau mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor bod rhai awdurdodau cyhoeddus a'u contractwyr yn dehongli cadw gwybodaeth ar ran ei gilydd yn eang. Rhaid canmol y dull gweithredu hwn. Er mwyn cynyddu tryloywder, mae'r Llywodraeth yn annog awdurdodau cyhoeddus a chontractwyr yn gryf i ddehongli eu dyletswyddau yn y ffordd hon, er mwyn darparu gwybodaeth, yn wirfoddol, y maent yn meddwl a fydd o ddiddordeb i'r sawl sy'n gwneud cais a'r cyhoedd yn gyffredinol, ond sy'n ychwanegol at yr isafswm sy'n ofynnol yn dechnegol mewn cais rhyddid gwybodaeth i'r awdurdod cyhoeddus. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi cyfarwyddyd mewn Cod Ymarfer diwygiedig a gyhoeddir o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i egluro ymhellach yr amgylchiadau pan fyddai a phan na fyddai yn ei barn hi yn briodol rhannu gwybodaeth i ateb ceisiadau rhyddid gwybodaeth.
55. Rydym yn credu bod cyfuniad o'r dulliau gweithredu hyn yn ymateb cymesur, gan daro'r cydbwysedd iawn rhwng yr angen i fod yn atebol a'r angen i ysgafnhau'r beichiau ar fusnesau. Felly nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu, ar hyn o bryd, deddfu i ymestyn dyletswyddau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gontractwyr. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn poeni am yr effaith bosibl ar fusnesau bach a chanolig, y sector gwirfoddol a mentrau cymdeithasol, ond nid yw'n credu y dylid mabwysiadu trothwy gwerth contract isaf ar gyfer cynnwys yn ffurfiol, ac ystyried nad yw budd y cyhoedd bob amser yn gyfystyr â maint contract.
56. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod ei dull gweithredu llai manwl a ffeirir yn galw am lawer o ewyllys da a chydweithredu gan awdurdodau cyhoeddus a chontractwyr. Rydym yn hybu cymaint â phosibl o dryloywder a gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth byddwn yn monitro llwyddiant y dull gweithredu hwn. Os na fydd y canlyniadau'n ddigonol

byddwn yn ystyried pa gamau eraill allai fod yn angenrheidiol i sicrhau atebolrwydd, gan gynnwys posibilrwydd dynodi contractwyr o dan adran 5.

57. Er nad yw'n fater y cyflwynodd y Pwyllgor sylwadau arno, mae'r Llywodraeth yn poeni am gymhlethdod y mecanweithiau sydd ar gael i ychwanegu neu i dynnu cyrff o gwmpas y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'n bwriadu ystyried dewisiadau ar gyfer diwygio i wneud hon yn broses sy'n fwy effeithlon ac yn llai o faich. Rhoddir sylw penodol i'r gorchymyn sy'n gwneud pwerau o dan adrannau 4 a 5 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac a fyddai'n ddefnyddiol newid y rhain, er enghraifft er mwyn dod â rhagor o gyrff o fewn y cwmpas yn awtomatig neu a fyddai modd eu hymestyn i ddal ystod ehangach o sefydliadau o bosibl. Er nad ydym ar hyn o bryd yn bwriadu cynnwys contractwyr, mae'n bwysig bod modd cynnal cwmpas y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn effeithiol a gydag ymdrech gymesur.



Cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa (TSO) ac mae ar gael:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost

TSO

Blwch Post / PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522

Gallwch archebu drwy ffonio'r Llinell Seneddol – Lo-Call ar 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

Siop Dau Dŷ'r Senedd

12 Bridge Street, Parliament Square,

London SW1A 2JX

Archebion dros y ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

E-bost: shop@parliament.uk

Y Rhyngwyd <http://www.shop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill

ISBN 978-0-10-185052-0



9 780101 850520